

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

SC(3)-04-07 (p1) : 04 Hydref 2007

Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Leihau Carbon yng Nghymru

Hydref y 4^{dd} 2007.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Cefndir a Swyddogaeth yr Asiantaeth

Cydnabyddir yn eang mai newid yn yr hinsawdd yw'r prif her amgylcheddol, ac y mae mwyafrif llethol y gwyddonwyr mai ei achos pennaf yw allyrru nwyon ty gwydr yn sgil gweithgareddau'r ddynolryw. Dengys senarios hinsawdd o Raglen Effeithiau'r Hinsawdd y DU y gallai tymheredd Cymru gynyddu rhwng 1.5 gradd a 4.5 gradd erbyn 2080, ac y bydd llai o law yn yr haf a rhagor yn y gaeaf, i raddau dibynnol ar faint o nwyon ty gwydr a allyrrir yn y dyfodol. Y tebyg hefyd yw y bydd tywydd eithafol ar gynnydd, ac y cyfyd lefel y môr gan hyd at 1 metr erbyn diwedd y ganrif. Effeithia newid yn yr hinsawdd ar faterion amgylcheddol eraill megis colli bioamrywiaeth, argaeledd dwr croyw, ac ansawdd awyr. Er mwyn atal Newid yn yr Hinsawdd "perylus" bydd angen tocio llawer ar allyriadau nwyon ty gwydr. Cynigion y Mesur Newid yn yr Hinsawdd yw amcanu yn y tymor hir at leihau 60% ar allyriadau deuocsid carbon erbyn 2050, ac at leihau gan 26-32% erbyn 2030. Y mae'r nodau hyn yn canlyn y rhai a gytunwyd trwy ddatganiad Kyoto. Er bod y DU yn debyg o gyrraedd ei nod Kyoto'n ddiraffferth, 'does fawr o gysur yn hynny oherwydd i'r rhan fwyaf o'r gostyngiadau ddeillio o'r "naid at nwy" yn nechrau'r 1990au. Nid yw'r rhaglen bresennol yn cyrraedd y nod gwladol, sef tocio 20% ar lefelau deuocsid carbon 1990 erbyn 2010. Cadarnhaodd yr ymgynghoriad adolygu ynni fod y rhaglen bresennol yn debyg o leihau dim ond 10% ar deuocsid carbon ledled y DU yn 2010 o'i chymharu â 1990: a gallai hynny fod cyn lleied â 3% yng Nghymru.

Y mae rhan Asiantaeth yr Amgylchedd yn lleihau allyriadau nwyon ty gwydr yn cynnwys:

Y mae cyfyngu ar newid yn yr hinsawdd yn brif thema gweithgaredd o fewn gweledigaeth yr Asiantaeth ynghylch amgylchedd diogel ac iach. Y mae'r Asiantaeth gyfan yn amcanu at wireddu hynny. Rheoleiddiwn brosesau diwydiannol sy'n cynhyrchu dros 50% o allyriadau deuocsid carbon Cymru trwy Gynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd (EUETS). Nyni hefyd yw'r ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio sy'n cynnwys gweithfeydd ynni. Lleiheir allyriadau methan trwy reoliadau gosod cyfarpar cynhyrchu trydan neu fflagu yn safleoedd claddu gwastraff, a thrwy ddargyfeirio gwastraff pydradwy. Yng Nghymru, yr ydym mewn bartneriaethau sy'n ceisio hybu arbed ynni, lleihau gwastraff i'r eithaf, a newid at dechnolegau carbon-isel. Bydd gweithredu cyfundrefnau Rheoli Llygredd Cyfun ac Atal a Rheoli Llygredd trwy Swyddfeydd Ardal yr Asiantaeth yn tocio allyriadau diwydiannol. Bydd mentrau â phartneriaid eraill yn hybu ynni adnewyddadwy ac yn lleihau maint yr ynni a ddefnyddir yn y DU. Trwy hybu arferion amaethyddol da, mae gan yr Asiantaeth ran yn lleihau'r ocsid nitraidd a allyrrir gan amaethu. Y mae rheoli tir hefyd yn allweddol ar gyfer sicrhau na ryddheir carbon sydd eisioes wedi'i storio yn y pridd ac mewn coedwigoedd a chorsydd yr ucheldiroedd. Gallai'r Asiantaeth weinyddu'r rheoliadau nwy Ff o fewn Cymru, a fydd, er enghraifft, yn sicrhau effeithlonrwydd systemau oeryddol mawrion. Dyma destun ymgynghoriad diweddar ynghylch y rheoliadau (a ddechreuodd ym Mai 2007). Y tebyg yw mai'r Asiantaeth hefyd fydd rheoleiddiwr y Ymrwymiad Cwtogi Carbon a ddaw â chyrrff adwerthol masnachol mawrion a rhai cyhoeddus i gynllun masnachu erbyn 2010. Ceisia'r Asiantaeth osod esiampl trwy leihau ei hól troed carbon ei hun.

Dangosyddion Allyriadau Nwyon Ty Gwydr yng Nghymru.

Ar hyn o bryd ceir dau ddull mesur llwyddiant Cymru o fewn y rhaglen Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd (leihau allyriadau nwyon ty gwydr), sef cyfanswm allyriadau a'r ôl troed ecolegol. Rhoddant ddau olwg whanaol iawn ar y perfformiad presennol.

Cyfanswm Allyriadau. (Y Rhestr Allyriadau Atmosfferaid Cenedlaethol).

Cesglir yr wybodaeth hon ar gyfer Cymru ar gyfer pob nwy ty gwydr, ond fel arfer y mae o leiaf dwy flynedd y tu ôl i'r flwyddyn bresennol. Priodola pob allyriad at fan ei gynhyrchu: felly priodol i Gymru yr holl allyrru a gynhyrchir gan drydan a allforir i Loegr, er enghraifft. Rhydd hyn gyfanswm CO₂ clir uchel ar gyfer Cymru. Dengys y dull hwn fod gan Gymru un o'r cyfanswmiau allyrru o gynhyrchu uchaf yn y DU, sef 14.31 tunnell fetrig y pen. Cyfanswm y DU ar gyfartaledd yw 10.76 tunnell fetrig y pen.

Dull yr Ôl Troed Ecolegol.

Y mae adroddiad Cronfa Bywyd Gwylt y Byd (WWF), "Lleihau Ôl Troed Ecolegol Cymru", a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005 yn priodoli pob allyriad ynni sequestered ac uniongyrchol ac allyriadau cysylltiedig at fan y defnyddiwr terfynol, waeth ymhle y gwnaeth cydrannau'r gwrthrych gorffenedig. I Loegr y priodol yr holl CO₂ a gynhyrchid ar gyfrif gwrthrych a wnaed yng Nghymru ond a allforid i Loegr. Dengys y dull hwn mai Cymru sy'n allyrru leiaf yn y DU, sef 11.04 tunnell fetrig y pen. Cyfanswm y DU ar gyfartaledd yw 11.81 tunnell fetrig y pen.

Gellir ystyried sawl dull arall, megis yr un canlynol:

Dull yr Ymddiriedolaeth Garbon (Cymru). Asesa'r dull hwn yr allyriadau deuocsid carbon a gysylltir â'r defnyddiwr terfynol. Mantais honedig hwn yw y gellir arolygu cynnydd neu leihad yn nefnydd ynni'r gwahanol sectorau trwy ddefnydd tanwydd yn y man defnyddio neu yn yr orsaf ynni. Ar gyfer yr astudiaeth seiliol o 2003, y mae allyriadau Cymru agos 9% yn is na'r hyn a ddengys y dull cyntaf.

Sylw.

Er mwyn mesur effeithiolrwydd y polisi a'r gwiethgaredd, rhaid wrth ddata da ynghyd â dangosyddion sy'n adlewyrchu parthau gweithgaredd o fewn cwmpas y Cynulliad. Ar hyn o bryd 'does fawr o reolaeth ar leoli ffatrioedd na gorsafoedd ynni newydd, ac nid yw cyfanswm yr allyrru'n ddangosydd arbennig o ddefnyddiol ar raddfa Cymru. Efallai y byddai dangosydd a asesai gofyn y defnyddiwr terfynol, ac felly hefyd effeithlonrwydd cyflawn cynhyrchu ynni o fewn Cymru yn nhermau rhyddhau CO₂.

Nwyon Ty Gwydr yng Nghymru

Er nad yw cwmpas yr ymchwiliad ond yn sôn yn benodol am garbon, yr ydym wedi cynnwys holl nwyon ty gwydr Cymru yn ein dadansoddiad, er bod pwyslais mawr ar garbon. Dengys ffigur 1 y cyfraniad cymharol holl nwyon ty gwydr Cymru at y cyfanswm allyriadau. [Diagram % cyfraniad nwyon]

CO₂: 2. CO₂ Anffylsogiadol: 3. Methan: 4. N₂O: 5. Nwyon Ff.

Deuocsid carbon

Dengys gwybodaeth sydd ar gael gan DEFRA (2005) mai 42.5 miliwn tunnell fetrig oedd cyfanswm allyriadau CO₂ Cymru yn 2003. Deuocsid carbon oedd 82% o allyriadau nwyon ty gwydr Cymru y flwyddyn honno. Dengys y ffigurau fod cwmnïau unigol yng Nghymru'n allyrru cyfansymiau CO₂ cyfartal â chyfanswm allyriadau trafniadaeth ffyrdd neu aelwydydd y wlad, neu ragor na hynny. Yn hyn o beth nid yw Cymru'n anarferol o fewn cyd-destun y DU, gan fod y sector diwydiannol yn fwy o lawer, ac ni ddylai hyn guddio cyfraniad sylweddol trafniadaeth ac aelwydydd. Rhydd y siart dafellog ddadansoddiad ychydig manylach.

Ffynhonnell	Mil tunelli CO ₂	% allyriadau CO ₂
cynhyrchu ynni	13.73	32.3%
ffatriaeth	10.37	24.4%
trafnidiaeth ffyrdd	5.95	14%
preswyl	4.59	10.8
puro olew	3.3	7.9%
allyriadau priddoedd	1.2	2.8
masnachol	1.02	2.4
siment	0.43	1.0
tanwyddau soled	0.34	0.8
Cyfanswm	42.5	

Transport = Trafnidiaeth

Aberthaw = Aberddawan

Corus = Corus

Texaco = Texaco

Total = Total

Nash = Trefonnen

Residential & Commercial = Preswyl a Masnachol

Connah's Quay = Cei Connah

Industry (other) = Diwydiant (arall)

Power (other) = Ynni (arall)

Miscellaneous = Amrywiol]

Methan

Yn 2003 allyrrodd Cymru gyfanswm methan cyfartal â 3.7 miliwn tunnell o CO₂ (7% o gyfanswm yr allyriadau nwyon ty gwydr). Prif ffynhonnell allyriadau methan Cymru yw amaeth (73%) trwy gyfrwng eplesu coluddol da byw. Y ffynhonnell ail fwyaf yw gwastraff (11%), ac allyriad cyfun o 10.9% o gloddio glo, cynhyrchu golosg a nwy naturiol.

Ocsid nitraidd

Amaeth fu'n gyriol am 78% o allyriadau N₂O Cymru yn 2003, gyda thrafnidiaeth ffyrdd yn cyfrannu 7.5%, a chynhyrchu ynni 5.7%. Allyrwyd cyfanswm cyfartal â 3.3 miliwn tunnell fetrig (6.5% o'r holl allyrru nwyon ty gwydr).

Nwyon Ff

Hydrofflorocarbonau – rhewiddio yw'r ffynhonnell fwyaf, ac erosolau'n agos cymaint. Perfflorocarbonau – agos y cyfan yn deillio o ddiwydiant aliwminwm Cymru Hecsaflworid sylffwr – o gynhyrchu magnesiwm. Y mae rheoliadau nwyon Ff ar y gweill, a bydd yr Asiantaeth â rhan yn y rheoleiddio. Golyga hyn, yn bennaf, sicrhau effeithlonrwydd systemau rhewiddio.

. Effaith Gweithgaredd a Gwaith Rheoleiddio'r Asiantaeth

Allyriadau o dan y cynllun EUETS.

Yr oedd yr allyriadau tan gynllun EUETS yn ei flwyddyn gyntaf (2005) yn 54% o holl allyriadau CO₂ Cymru (ar sail canlyniadau cyfanswm allyriadau 2003). Cynhwysai hyn 37 safle yn sectorau Cynhyrchu Ynni, Dur, Olew a Siment. Rhoddwyd cyfrannau i bob gwaith ar sail allyriadau blaenorol, ac yna yr oedd angen iddynt ildio cyfrannau'n flynyddol ar gyfer cyfanswm eu hallyriadau. Os oeddent yn fwy na'u cyfran, rhaid oedd iddynt brynu rhagor o gyfrannau. Os yn is, bu modd iddynt werthu, ac elwa oherwydd eu heffeithlonrwydd ynni. Y mae gwaith rheoleiddio'r Asiantaeth yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun masnachu hwn, ond pennwyd y cyfrannau gan yr Adran Diwydiant a Masnach (fel yr oedd) a diwydiant, gan ymgynghori â LICC. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun yng Nghymru yr oedd yr allyriadau 1.1 miliwn tunnell fetrig yn fwy na'r cyfran. Y mae canlyniadau ail flwyddyn gweithredu EUETS yng Nghymru'n awgrymu y rhyddhawyd 25.2 miliwn tunnell fetrig o CO₂ gan 39 cwmni. Y mae hynny 2.1 miliwn tunnell fetrig yn rhagor na ffigwr profedig 2005, ac yn 3.4 miliwn tunnell fetrig yn rhagor na'r cyfrannau. Y mae'r holl gwmnïau wedi cadarnhau'u cofnodion ac wedi cyflwyno cyfrannau addas ar gyfer eu hallyriadau, a bu'r rheoleiddio'n dda: ond y mae'r canlyniadau o ran lleihau carbon yn siomi, ac yn adlewyrchu defnyddio rhagor o lo ar gyfer cynhyrchu ynni oherwydd pris uwch nwy yn ystod gaeaf 2005-2006. Y mae pris isel carbon yn y farchnad a gallu'r Diwydiant Cyflenwi Trydan i drosglwyddo costau hwy ill dau'n gweithredu yn erbyn buddsoddi tymor hir yng nghamau effeithlonrwydd. Efallai fod yr effaith yn fwy adeiladol ymysg y cwmnïau bychain: llwyddodd 24 o'r 39 i docio eu hallyriadau. Y mae'r 11 prif safle yng Nghymru'n 98% o'r holl allyriadau o'r safleoedd, ac yr ydym yn trafod â hwy ddulliau posibl lleihau eu hallyriadau.

Sylw Cyffredinol.

2005-2008 yw hyd cyfnod cyntaf EUETS, a'r un yw'r cyfrannau pob blwyddyn. Gosodwyd y cyfrannau ar gyfer yr ail gyfnod (2008-2012). Er yr arfaethir iddynt arwain at leihad (ar sail y cyfrannau) o 3.5% ledled y DU fel cyfanwlad yn ystod 5 mlynedd y cyfnod, y mae'r effaith yng Nghymru yn llai o lawer – tuag 1%. Y mae hwn yn gyfraniad bychan at nod posibl o 3% y flwyddyn, ac yn dangos y dylid edrych mwy at yr agwedd rheoli galw am ostyngiadau yn y dyfodol agos. Y gobaith mawr, fodd bynnag, yw bod yr EUETS yn rhagflaenu cytundeb byd-eang, a byddai'r Asiantaeth yn annog parhau i gefnogi llwyddiant y cynllun yn y tymor hir.

Effaith Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd

Parthed cwmnïau y tu allan i EUETS a'r Cyntundebau Newid yn yr Hinsawdd, dyletswydd tr Asiantaeth o fewn ArhLI yw sicrhau fod y gweithfeydd yn dewis Technegau Gorau Sydd Ar Gael (BAT) wrth ddefnyddio ynni. Daw safleoedd claddu gwastraff hefyd o dan BAT, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf daeth cynhyrchu trydan o nwy tirlenwi yn BAT. Cyfrannodd hyn at leihau allyriadau methan a gofrestrwyd ar Gofrestr Llygredd Cymru yr Asiantaeth.

Cyfraniad at gynllunio.

Y mae'r Asiantaeth wedi darparu gwybodaeth ynghylch effeithiau Newid yn yr Hinsawdd i'r grwpiau cynllunio gofodol ledled Cymru. Gwnawn sylwadau hefyd ar fannau gosod gweithfeydd unigol parthed effeithlonrwydd ynni. Enghraifft ddiweddar yw'r ymgynghoriad cynllunio ar gyfer gorsaf ynni Penfro, lle awgrymasom nad dyna'r safle addasaf, efallai, ar gyfer cynnwys Gwres ac Ynni Cyfun (GYC).

Ôl troed yr Asiantaeth, ac effeithiau Polisi.

Y mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Garbon er mwyn mesur ein hól troed ni'n hunain. Dyma'r asesiad cyntaf, 2005/2006.

Dosbarth	Tunelli metrig CO ₂ blynyddol
Cerbydau Bathodynog	1,154
Ceir ar les a defnyddwyr achlysurol	947

Adeiladau	275
Ceir llog	46
Trafnidiaeth rheilffyrdd	22

Trafnidiaeth awyr	5
-------------------	---

Sef cyfanswm o 2449 tunnell fetrig, â thrafnidiaeth ffyrdd yn allyrru 86% o'r CO₂. O fewn ein polisi Rheoli'r Amgylchedd Mewnol y mae gennym, bellach, nodau lleihau'r allyriadau hyn, a gofynwyd i bob ardal docio eu hallyriadau gan o leiaf 10% o fewn y flwyddyn nesaf. Yr

ydym hefyd yn datblygu polisi caffael gwyrdd, ac o fewn Cymru yr ydym hefyd yn rhoi prawf ar ddefnyddio biodiesel 22% mewn cerbydau a pheiriannau. Y mae gennym hefyd gronfa o fewn yr Asiantaeth ar gyfer buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, er mwyn sicrhau fod ein busnes cyfan yn cynhyrchu cyn lleied o garbon ychwanegol ag y bo modd. Y mae rhai o'n pebderfyniadau ynglyn â pholisi yn effeithio ar eraill. Er enghraifft, y mae'r driniaeth angenrheidiol ar gyfer rhai elifiannau cwmnïau dwr yn defnyddio cryn ynni, ac yr ydym yn ceisio lleihau i'r eithaf effaith gofynion o'r fath trwy weithio gyda'r cwmnïau dwr er mwyn canfod dulliau llai barus.

Rheileiddio yn y Dyfodol.

Y mae'r Asiantaeth yn arfaethu rheoleffio'r rheoliadau Nwyon Ff a fydd yn sicrhau defnydd effeithiolach ar systemau oeryddol. Disgwyliwn hefyd mai nydd yr awdurdod rheoleiddiol ar gyfer y drefn Ymrwymo i Leihau Carbon. Rhydd gymhelliad ariannol i gyrrf masnachol, manwerthu a chyhoeddus leihau eu hallytiadau carbon, a disgwylir iddo ddechrau yn 2010.

Cyfngiadau presennol ar Bolisi.

Cred Asiantaeth yr Amgylchedd bod gwendidau yn y pecyn camau polisi presennol. Yn neilltuol:

Agwedd anuchelgeisiol tuag at effeithlonrwydd ynni er gwaethaf cryn dystiolaeth fod hyn o fudd economaidd, waeth am y budd amgylcheddol a diogeled ynni.

Cyflymder ymateb y Llywodraeth pan nad yw polisi'n esgor ar cymaint o fudd ag a ddisgwyliid.

Gwendid polisïau'n ymwneud ag allyriadau perthynol i ynni yn y sectorau gwres a chluant.

Byddai agwedd newydd yn pwysleisio effeithlonrwydd ynni, ac yn sefydlu marchnad ar gyfer gwobrwyo technolegau carbon-isel yng nghyflenwi ynni.

Casgliadau ac argynhellion.

Cyffredinol

Cefnogwn argynhellion y Mesur Newid yn yr Hinsawdd parthed derbyn nod lleihau allyriadau deuocsid carbon gan 60% yn y tymor hir, sef erbyn 2050 (fel yr argymhella'r Comisiwn Brenhinol ar Lygredd Amgylcheddol), ac amcanu at 26-32% o leihad erbyn 2030. Llawn gefnogwn nod datganedig Cymru'n Un, sef amcanu at leihau 3% y flwyddyn ym meysydd cymhwysedd datblygedig erbyn 2011: ac anogem Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried gosod nodau statudol yn y meysydd hyn ple bynnag y bo modd.

Y mae cryn ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch sut yr effeithia'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd ar Weinyddiaethau Datganoledig. Y mae'r Asiantaeth wedi ymateb i'r ymgynghoriad Newid yn yr Hinsawdd, gan ofyn i'r Llywodraeth warantu cyrraedd nodau carbon, yn gyntaf trwy brynu credydau rhyngwladol hyd at ganran neilltuol o'r nod, a buddsoddi o hynny ymlaen mewn cronfa a fydd ar gael i gynlluniau lleihau carbon gartref. Ar hyn o bryd, nid yw'n eglur a yw hyn yn uniongyrchol berthnasol i Gymru.

Argymhellwn ganfod a nodi allyriadau nwyon ty gwydr cysylltiedig â phob cynllun perthnasol yng Nghymru, a'r lleihad disgwylidig yn sgil polisïau a luniwyd ar eu cyfer.

Cydnabyddwn y dichon i ddal a storio carbon leihau allyriadau'n sylweddol yn ystod cynhyrchu a defnyddio tanwyddau ffosil. Gall fod yn arbennig o bwysig mewn gwledydd sy'n debyg o losgi llawer o lo: ond cyn ei ddefnyddio ar raddfa fasnachol, rhaid i ddal a storio carbon gyrraedd safonau iechyd a pherfformiad amgylcheddol uchel, a rhaid wrth fframwaith rheoliadol cadarn. Yn anffodus, nid yw Cymru mewn sefyllfa dda ar gyfer defnyddio'r dechnoleg hon, gan na chanfuwyd llawer o safleoedd storio. Efallai y bydd i waith bychan sy'n defnyddio meysydd nwy Dyfrdwy ddarparu profiad, o ba un yr ymelwai Cymru trwy werthu technoleg i economïau glo-ddibynnol.

Pynciau Ynni (Cyflenwi Ynni, Ynni Domestig a Masnachol).

Dylai polisi ynni'r dyfodol ganolbwyntio ar sut mae lleihau galw, a chynyddu defnyddio ynni adnewyddadwy a Gwres ac Ynni Cyfun (GYC).

Cytunwn ag asesiad Adolygiad Ynni'r Uned Perfformiad a Dyfeisio (UPD) bod rhaid gwireddu amcanion newid yn yr hinsawdd trwy'r gyfundrefn ynni, a "lle bo polisïau polisi ynni'n golygu cyfaddawdau cydrhwng amcanion amgylcheddol ac eraill, yna tueddir i roi'r flaenoriaeth i amcanion amgylcheddol". Credwn y golyga hyn, er enghraifft, y dylid cyfarwyddo Ofgen i roi mwy o flaenoriaeth i fuddiannau amgylcheddol wrth benderfynu.

Y mae angen rhaglen cynhyrchu ynni "newid sylweddol" amlwg er mwyn gwella 40% ar effeithlonrwydd ynni domestig.

Cefnogwn Argymhelliad LICC y dylai 15 TwHr o drydan ddod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Ymchwiliwn i sut y peidiwn â gosod rhwystrau rheoliadol yn ffordd y datblygiad hwn. At hynny, dylid ystyried nod tymor-hir 2050 ar gyfer cyflenwi 50% o anghenion ynni'r DU ag ynni adnewyddadwy.

Bydd ar ynni cynaliadwy angen rhagor na newid ffynonellau ynni ein cyfundrefn ynni. Bydd angen newid llwyr yn null gweithredu'r gyfundrefn ynni, yn neilltuol ar gyfer annog defnydd effeithlonach ar wres, a ffurfiau mwy datganoledig o ynni adnewyddadwy.

Ni fydd newid at ynni adnewyddadwy'n golygu costau economaidd, o raid. Mewn gwirionedd, y mae'n debyg o ddwyn budd mawr i gyflogaeth a chystadleurwydd.

Cefnogwn well agwedd at gynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy, sydd yn treiglo i lawr o nodau Cymru-gyfan at raddfa'r gymuned, gyda chynnydd yng nghyfranogaeth gyhoeddus. Croesawn y cynigion diweddar o fewn yr ymgynghoriad ar gynllunio ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan.

Dylid hoelio sylw penaethiaid cwmnïau ar leihau carbon trwy gyflwyno safonau hysbysu gorfodol ar gyfer cwmnïau.

Dylid dileu rhwystrau masnachol a sefydliadol i Wres ac Ynni Cyfun ac ynni adnewyddadwy.

Yr ydym o'r farn y dylai asesiad o ran ynni niwcliar, os oes rhan, ystyried yn llawn gostau ariannol ac economaidd rheoli a storio ynni ymbelydrol a'r fframwaith rheoliadol. Amheua'r Asiantaeth gomisiynu rhagor o foddion cynhyrchu niwcliar yn absenoldeb strategaeth

dymor-hir gynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol. Hyd nes y datrysir y pwnc hwn ac y llawn wynebir pryderon y cyhoedd, yna ymddengys inni y byddai unrhyw newidiadau polisi mawrion er annog adeiladu rhagor o foddion cynhyrchu niwcliar newydd yn gynamserol.

Cydnabyddwn y dichon i Hafren gynhyrchu ynni. Dogfenwyd yn helaeth yr amheuon cyfreithiol cysylltiedig â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r cynigion hyn. Ymatebwn i adroddiad y SDC cyn gynted ag y bo modd.

Pryderwn ynghylch effaith dadleoliadol bosibl rhaglen fawr o fuddsoddi mewn technolegau cyfalaf-ddwys fel Niwcliar neu Argae Hafren ar effeithlonrwydd ynni, GYC a thechnolegau adnewyddadwy eraill.

Diwydiant a Masnach

Yr ydym yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni diwydiannol trwy Gytundebau Newid yn yr Hinsawdd a'r drefn Atal a Rheoli Llygredd Gyfun, a defnyddiwn y broses adolygu er gyfer cynnal cynnydd.

Gweithiwn â'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, Yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbedion Ynni er mwyn datblygu creu economi carbon-isel.

Yr ydym yn trafod allyriadau ein prif allyrwyr CO₂ yng Nghymru, gan amcanu eu lleihau.

EUETS – buom yn gweithio â llywodraeth y DU er mwyn dylanwadu ar y GE i osod dyraniadau cyflawn ar gyfer y cynllun, sydd yn adlewyrchu'r lleihad allyriadau angenrheidiol hyn hytrach na'i reoli gan aelod-wladwriaethau.

Trafnidiaeth.

Datblygu strategaethau trafndiaeth amgylcheddol cydlynol sydd gyson â'u hamcanion datganedig, sef lleihau allyriadau nwyon ty gwydr. Onis cyflawnir, y mae perygl sylweddol y tansailir gwaith lleihau allyriadau sectorau eraill gan y cynnydd rhagweledig yn allyriadau trafndiaeth.

Rhaid i unrhyw strategaeth gredadwy ddefnyddio holl elfennau deimwnt Datblygu Cynaliadwy'r Llywodraeth, gan gynnwys symbyliadau ariannol ar gyfer dylanwadu ar ymddygiad a rheoli galw.

Rhaid gweithredu er mwyn lleihau twf allyriadau hedfan. Ar raddfa Cymru, gallai hyn olygu gwrthwynebu ehangu meysydd awyr a theithiau awyr mewnol.

Y mae hybu biodanwyddau cynaliadwy'n bwysig, ond rhaid gofalu bod y y ffynonellau'n gynaliadwy.

Gellid ymchwilio i gyfyngiadau cyflymder er mwyn lleihau allyriadau CO₂.

Amaethyddiaeth

Dylid hybu cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n gwarchod cronfeydd carbon presennol neu'n hybu neilltuo carbon.

Dylid hybu cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar gyfer lleihau gwrtaith nitrogen er mwyn tocio allyriadau ocsid nitraidd.

Dylid hybu twf biodanwyddau ail genhedlaeth lle bo modd, a darparu cyfleusterau eu prosesu yng Nghymru. Y mae'r cnydau hyn yn defnyddio gwastraff cnydau bwyd yn bennaf, gan osgoi ychwanegu at y gwrthdaro rhwng bwyd a thanwydd. Dylid tyfu biodanwyddau mewn ardaloedd lle na fyddai fawr o effaith amgylcheddol.

Dylid hyrwyddo biodanwyddau nad oes arnynt angen llawer o wrtaith, er mwyn cyfyngu ar bosibilrwydd cynnydd allyriadau ocsid nitraidd.